



CFfi CYMRU WALES YFC

Sioe Frenhinol Amaethyddol Cymru
Royal Welsh Agricultural Show
Maes y Sioe | Showground, Llanelwedd

23 - 26/07/2018

Cystadlaethau a Rheolau
Competitions and Rules

Dyddiad Cau
Closing Date
06/07/2018





CYNNWYS | CONTENT

	CYSTADLEUAETH / COMPETITION	RHIF TUDALEN / PAGE NUMBER
1	ARDDANGOSFA FFEDERASIWN FEDERATION DISPLAY	4
2	CYSTADLAETHAU'R AELODAU MEMBERS' COMPETITIONS	6
3	CYSTADLEUAETH CNEIFIO DEFAID SHEEP SHEARING COMPETITION	12
4	TRIN GWLÂN WOOL HANDLING	13
5	CANU SINGING	14
6	DAWSIO DANCING	16
7	LLUNIO A CHREU BARCUD DESIGN AND CREATE A KITE	18
8	RAS GYFNEWID BERFEYDD (THEMA LLU AWYR) RAF WHEELBARROW RELAY	19
9	BARNU STOC GWARTHEG HOLSTEIN HOLSTEIN CATTLE STOCK JUDGING	20
10	GWISGO FYNY DRESSING UP	21
11	BARNU DEFAID MYNYDD CYMREIG DUON BLACK WELSH MOUNTAIN SHEEP JUDGING	22
12	HARWYDDO'CH CLWB PROMOTE YOUR CLUB	23
13a	TYNNU'R GELYN TUG OF WAR	24
13b	TYNNU'R GELYN IAU JUNIOR TUG OF WAR	26
14	AR Y NEWYDDION ON THE NEWS	29
15	GWAITH COED WOODWORK	30
16	GEM YR OESOEDD GENERATION GAME	31
17	BARNU MOCH CYMREIG WELSH PIG STOCKJUDGING	32
18	BAND AILGYLCHU RECYCLED BAND	33
19	RYGBI 7 BOB OCHR 7 A SIDE RUGBY	34



**THEMA
FYNY FRY**

Dewiswyd y thema 'Fyny Fry' ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru eleni oherwydd mae'r Llu Awyr Brenhinol yn dathlu eu canmlwyddiant yn 2018.

Nodir oedrannau cystadlu penodol dan bob cystadleuaeth.

Bydd rhaid i bob cystadleuydd fod yn aelodau llawn o Glwb CFFI yng Nghymru sy'n gysylltiedig â CFFI Cymru neu FfCCFFI. Bydd yn ofynnol i gystadlewyr ddangos eu cardiau aelodaeth ar gyfer pob cystadleuaeth.

Bydd methu dangos cerdyn aelodaeth dilys (â llun) yn arwain at gosb o £10. Ni chaniateir i aelodau gystadlu os nad yw eu henwau ar y rhestr o'r sawl sydd wedi talu i fod yn aelod o'r Ffederasiwn ac os na fyddant yn gallu dangos cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r gystadleuaeth.

Caiff Ffederasiynau Sirol eu dirwyo os bydd UNRHYW ddeunyddiau yn dal ar y safle yn dilyn Sioe Frenhinol Cymru wedi'r 3ydd o Awst 2018, oni byddir wedi trafod hynny ymlaen llaw â CFFI Cymru.

**THEME
UP ABOVE**

The 'Up Above' theme was decided for this years Royal Welsh as the Royal Air Force (RAF) are celebrating their centenary year in 2018.

Specific competing ages are noted under each competition.

All competitors must be full members of a YFC Club based in Wales and affiliated to either Wales YFC or NFYFC. Competitors will be required to show their membership cards for all competitions.

Failure to produce a valid membership card (with photo) will result in a £10 penalty charge. Any member whose name is not listed as a current paid up member of the Federation and who cannot produce a membership card at the start of the competition will not be allowed to compete.

There will be fines for the County Federation if ANY materials are left from the Royal Welsh show after the 3rd of August 2018, unless previously discussed with Wales YFC.



CYSTADLEUAETH 1

ARDDANGOSFA FFEDERASIWN

THEMA

FYNY FRY

TÎM

Hyd at chwe aelod (26 mlwydd oed neu'n iau). Ni chaniateir mwy na phedwar aelod i lwyfannu a pharatoi arddangosfeydd. Caniateir i'r ddau aelod ychwanegol godi'r ffrâm yn unig.

MESURIADAU

Caniateir y mesuriadau canlynol: 6' (1m 82.9 cm) o uchder; 6' (1m 82.9 cm) o led; 4'6" (1m 37.1 cm) o ddyfnder - uchafswm y mesuriadau allanol (gweler y rheolau cyffredinol ynghylch cosbau am arddangosfeydd sydd ddim yn cyflawni'r gofynion o ran maint)

AMSER

Gweler y 'manylyon ynghylch yr amser a glustnodir i gyrraedd a chodi'r arddangosfa' a'r rheolau cyffredinol ynghylch cosbau am gyrraedd yn hwyr. Gellir datgymalu'r arddangosfeydd wedi 3yo ar ddiwrnod olaf y Sioe. Caiff yr holl arddangosfeydd eu beirniadu ddydd Sul, 22 Gorffennaf, am 4.15yp.

CYFLENWAD TRYDAN

Bydd un soced drydan ar gael ar gyfer pob arddangosfa yn Sioe Frenhinol Cymru, a chaniateir un lid drydan yn unig o bob arddangosfa. Mae'n ofynnol fod unrhyw blygiau a ddefnyddir gan gystadleuwyr wedi cael prawf PAT.

NODIADAU

Rhaid i bob aelod wisgo côt wen. Bydd y Ffederasiynau sy'n cyfranogi fod yn gyfrifol am unrhyw labeli; gallant fod yn Gymraeg yn unig, yn Saesneg yn unig, neu'n ddwyieithog. Rhaid i'r holl adeiladwaith gael ei wneud gan yr aelodau. Dylai cystadleuwyr adael popeth yn yr arddangosfa yn ystod pedwar diwrnod y Sioe, felly ni chaniateir bwydydd darfodus. Mae cystadleuwyr yn gyfrifol am holl eitemau eu harddangosfa. Os gwelir fod unrhyw eitem yn dirywio yn ystod cyfnod y Sioe, bydd gan stiwardiaid hawl i'w dynnu oddi yno.

COMPETITION 1

FEDERATION DISPLAY

THEME

UP ABOVE

TEAM

Up to six members (26 years of age or under). No more than four members to stage and prepare displays. The two additional members are only permitted to erect the frame.

MEASUREMENTS

Space allowed 6' (1m 82.9 cm) high; 6' (1m 82.9 cm) wide; 4'6" (1m 37.1 cm) deep - maximum outside measurements (please see general rules regarding penalties for displays which do not meet the necessary size specification)

TIME

Please see the 'allocated time of arrival and erection details' for setting up period and general rules on penalties for late arrivals. Dismantling can take place after 3pm on the last day of the Show.

All displays will be judged on Sunday, 22 of July at 4.15 pm.

ELECTRIC

One electric socket will be available per display at the Royal Welsh Show, and only one trailing lead allowed from the display. It is a requirement that any plugs being used by competitors are PAT tested.

NOTES

All members must wear white coats. Participating Federations to be responsible for all labelling, this may be in English only, Welsh only, or bilingual. All construction to be made by members. All competitors to leave everything on display for the four days of the Show and therefore no perishable foods allowed. Competitors are responsible for all items on display. If any item is found to deteriorate over the Show period, stewards will be authorised to remove it.



Bydd Trefnyddion y Ffederasiynau yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith o osod a datgymalu'r arddangosfa wedi'r Sioe. Tynnir marciau o'r cyfanswm terfynol os na fydd Ffederasiynau yn cadw at y rheol hon.

Federation Organisers will be responsible for co-ordinating the arranging and dismantling of the display after the Show. Marks will be deducted from final placing if Federations do not honour this rule.

Ni chaniateir safleoedd cyfartal yng nghanlyniadau'r gystadleuaeth hon.

No equal placings allowed in overall positions of this competition.

Rhaid i dimau gofio y dylai'r arddangosfa fod yn addas i'w gweld gan blant a phobl o bob oedran.

Teams must remember that the exhibit should be suitable for viewing by all ages.

MARCIO

Dehongli'r thema	30
Saernïaeth y cefndir a'r llwyfannu	15
Saernïaeth y cynnwys	20
Argraff gyffredinol a chyflwyniad	25
Defnydd o'r lle a ganiateir	10

CYFANSWM 100

SCALE OF MARKS

Interpretation of theme	30
Workmanship of backing and staging	15
Workmanship of content	20
Overall impression and presentation	25
Use of space allowed	10

TOTAL 100



CYSTADLEUAETH 2

CYSTADLEUAETH GOSOD BLODAU

CYSTADLEUAETH YR AELODAU

Rhaid arddangos holl eitemau Cystadleuaeth yr Aelodau tan 3yp, ddydd Iau 26 Gorffennaf. Bydd clirio arddangosfa cyn yr adeg hon yn arwain at ddileu'r marciau a roddwyd.

THEMA

Dathlu Canmlwyddiant y Llu Awyr Brenhinol

TÎM

Un aelod (21 mlwydd oed neu'n iau).

TASG

Trefniant blodau i ddathlu Canmlwyddiant y Llu Awyr Brenhinol.

COSTAU

Dim mwy na £30 (heb gynnwys y Dail). Dylid arddangos y costau.

ARDDANGOSFEYDD

Gall cystadleuwyr ddefnyddio ategolion os dymunant, ond rhaid iddynt eu darparu eu hunain. Gall cystadleuwyr ddefnyddio cefnwrdd os dymunant, ond rhaid iddynt eu darparu eu hunain.

LLE GWEITHIO

Hanner bwrdd trestl.

Mesuriadau: Caniateir lled o 60cm x dyfnder o 60 cm x unrhyw uchder a ddymunir.

AMSER

1 awr a 5 munud ychwanegol i sicrhau nad yw'r trefniadau wedi cael eu haflonyddu wrth glirio.

Cyfanswm o 100 - i'w feirniadu yn unol â'r canllawiau (a amlinellir isod) a bennwyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Cymdeithasau Gosod Blodau (N.A.F.A.S.). Gellir cael copïau o Lawlyfr Cystadlaethau NAFAS (rhifyn cyntaf) gan NAFAS

COMPETITION 2

FLORAL COMPETITION

MEMBERS' COMPETITION

All exhibits in the Members' Competition to be on display until 3pm on Thursday 26th July. Removal of an exhibit before this time will result in the allocated marks being withdrawn.

THEME

Celebrating the RAF Centenary

TEAM

One member (21 years of age or under).

TASK

To prepare an arrangement to celebrate the RAF Centenary.

COSTINGS

Not to exceed £30 (excluding Foliage). Costings to be displayed.

DISPLAY

Competitors are allowed to use accessories but are to supply these themselves. A backboard can be used if the competitor wishes but are to supply these themselves.

WORK SPACE

Half a trestle table.

Measurements: Size allowed 60cm wide x 60cm deep x unlimited height.

TIME

1 hour plus a further 5 minutes to check that arrangements have not been disturbed during cleaning up operations.

Total 100 - to be judged according to the guidelines (outlined below) laid down by the National Association of Flower Arrangement Societies (N.A.F.A.S.). Copies of the NAFAS Competitions Manual (first edition) may be



Enterprises Ltd, Osborne House, 12 Devonshire Square, Llundain, EC2M 4TE. Rhif ffôn: 02072475567.

obtained from NAFAS Enterprises Ltd, Osborne House, 12 Devonshire Square, London, EC2M 4TE. Tel: 02072475567.

1. Cadw at eiriad y gystadleuaeth.
2. Y deunydd planhigion yn amlycach na'r holl elfennau eraill.
3. Deunydd planhigion sy'n ddi-nam, mewn cyflwr da ac yn briodol.
4. Dehongliad clir o'r teitl a'r thema a ddewiswyd. Dylai'r deunydd planhigion helpu i ddehongli'r thema a ddewiswyd heb ddibynnu'n llwyr ar yr ategolion.
5. Defnydd da o egwyddorion dylunio a'r lle a ganiateir. Y defnydd o gydbwysedd, graddfa, llinellau, lle, gwead a lliw yn cyfrannu at harmoni'r cyfanrwydd.
6. Dylai unrhyw lieiniau bwrdd a sylfeini a ddefnyddir, yn ogystal â'r cynhwysydd ac unrhyw deitl, fod mewn cyflwr perffaith, yn addas i'r thema, a ddim yn amlycach na phopeth arall o ran maint neu liw.

1. Adherence to the competition wording.
2. Predominance of plant material over all other components.
3. Plant material that is unblemished, well conditioned and appropriate.
4. Clear interpretation of the title and chosen theme. Plant material should help to interpret the chosen theme without the sole reliance on accessories.
5. Good use of design principles and of the space allowed. The use of balance, scale, line, space, texture, and colour contribute to the total harmony.
6. Tablecloth and bases if used, as well as container and any title, in immaculate condition, suitable to the theme and not dominant in size or colour.

Os defnyddir ategolion, dylent gytgordio'n berffaith â gweddill yr arddangosfa, a dylai maint unrhyw ategolyn fod yn briodol o ran maint o'i gymharu â'r ategolion eraill ac â'r arddangosfa.

Accessories if used that are in harmony with the rest of the exhibit and that are in scale with it and with each other.



CYSTADLEUAETH COGINIO

CYSTADLEUAETH YR AELODAU

Rhaid arddangos holl eitemau Cystadleuaeth yr Aelodau tan 3yp, ddydd Iau 26 Gorffennaf. Bydd clirio arddangosfa cyn yr adeg hon yn arwain at ddileu'r marciau a roddwyd.

THEMA

Pryd ar gyfer Cinio Canmlwyddiant.

TÎM

Dau aelod (16 mlwydd oed neu'n iau)

TASG

Tîm o ddau aelod i baratoi pryd dau gwrs i'w weini mewn Cinio Canmlwyddiant ar gyfer dau berson.

Bydd yn ofynnol hefyd i aelodau lenwi holiadur hylendid bwyd ar ôl gorffen y dasg.

Ni ddylai cyfanswm y costau fod yn fwy nag £20.

OFFER

Bydd popty trydan bychan ar gael i bob tîm (rhaid i gystadleuwyr ddefnyddio'r popty a ddarperir). Dyma ddisgrifiad o'r popty:

Gril a chylch bychan neu bopty a chylch bychan neu ddau gylch yn unig. Bydd soced 13 amp ar gael ar gyfer unrhyw offer y bydd cystadleuwyr yn dymuno eu defnyddio, megis cymysgydd, hylifydd ac ati.

Caniateir un soced ychwanegol yn unig.

AMSER

Awr i goginio, yn cynnwys arddangos y pryd yn yr alcof gwyn a ddarperir (68.5cm x 68.5cm x 61cm o uchder) (gellir gosod deunydd cefndir ac ategolion cyn i'r awr gychwyn ac ni chaiff hynny ei gynnwys yn yr amser a ganiateir). Ni ellir coginio unrhyw beth ymlaen llaw, ond gellir pwyso cynhwysio a gellir golchi llysiau a ffrwythau ymlaen llaw. Rhaid cyflwyno ac arddangos

COOKERY COMPETITION

MEMBERS' COMPETITION

All exhibits in the Members' Competition to be on display until 3pm on Thursday 26th July. Removal of exhibit before this time will result in the allocated marks being withdrawn.

THEME

A meal for a Centenary Dinner.

TEAM

Two members (16 years of age or under)

TASK

A team of two members to prepare a two course meal to be served at a Centenary dinner for two people.

Members will also be required to complete a food hygiene questionnaire following the completion of the task.

Costs must not exceed £20 in total.

EQUIPMENT

A small electric cooker will be available per team (competitors to use the cooker provided) which is operated as follows:

Grill plus small ring or oven plus small ring or two rings only. A 13 amp socket will be available for any appliances that competitors may wish to use, such as a mixer, liquidiser, etc.

Only one extra socket will be allowed.

TIME

One hour for cooking, to include displaying of meal in the white alcove provided (68.5cm x 68.5cm x 61cm high) (backing material and accessories may be arranged prior to the commencement of the one hour and will be outside of this time). No cooking to be done beforehand, but ingredients may be weighed and vegetables/fruit washed beforehand. Recipes and research work must be



ryseitiau a gwaith ymchwil.

LLE GWEITHIO

Un bwrdd trestl, yn cynnwys lle i'r popty.

ARDDANGOSFEYDD

Rhaid arddangos y pryd yn yr alcof gwyn a ddarperir (68.5cm x 68.5cm x 61cm o uchder) (gellir gosod deunydd cefndir ac ategolion cyn i'r awr gychwyn ac ni chaiff hynny ei gynnwys yn yr amser a ganiateir).

Rhaid i'r holl arddangosfeydd fod o fewn maint/lle'r alcof, yn cynnwys unrhyw orchuddion neu leinin, mewn/ar unrhyw ddysglau / cynhwysyddion (rhaid i gystadleuwyr eu darparu).

Caniateir ategolion sy'n cytgordi â gweddill yr arddangosfa, a dylai maint unrhyw ategolyn fod yn addas o'i gymharu â maint yr arddangosfa a gweddill yr ategolion, ac nu ddylai ategolion fod yn amlycach na phopeth arall. Os gwelir fod unrhyw eitem yn dirywio yn ystod cyfnod y Sioe, bydd gan stiwardiaid hawl i'w dynnu oddi yno.

Ni chaniateir unrhyw ddiodydd yn yr alcof, ac eithrio gwydrau a photeli diodydd gwag.

MARCIO

Paratodau ymlaen llaw a chyflwyniad y bwrdd	5
Dull o weithio	15
Gweiddioldeb / Addasrwydd / Ymchwilio i'r Fwydlen	20
Cyflwyniad / Arddangosfa	15
Canlyniadau terfynol yr eitem a baratowyd (lliw/blas/gwead ac ati)	35
Holiadur	10

CYFANSWM

100

presented and displayed.

WORK SPACE

One trestle table including cooker space.

DISPLAY

Meal to be displayed in the white alcove provided (68.5cm x 68.5cm x 61cm high) (backing material and accessories may be arranged by the competitors prior to the commencement of the one hour and will be outside of this time).

All exhibits to be within the alcove size\space including any drapes or lining, in\on serving dishes\containers (competitors to supply).

Accessories that are in harmony with the rest of the exhibit and that are in scale with it and each other, but not dominant, are allowed. If any item is found to deteriorate over the Show period, stewards will be authorised to remove it.

No Drinks to be displayed in the alcove, with the exception of glasses and empty drinks bottles. 9

SCALE OF MARKS

Previous preparation & presentation of table	5
Method of working	15
Originality / Suitability / Research of Menu	20
Presentation / Display	15
Finished results of prepared item (colour/flavour/texture/etc)	35
Questionnaire	10

TOTAL

100



CYSTADLEUAETH GREFFT

CYSTADLEUAETH YR AELODAU

Rhaid arddangos holl eitemau Cystadleuaeth yr Aelodau tan 3yp, ddydd Iau 26 Gorffennaf. Bydd clirio arddangosfa cyn yr adeg hon yn arwain at ddileu'r marciau a roddwyd.

TÎM

Un aelod (26 mlwydd oed neu'n iau).

THEMA

Eitem goffaol.

TASG

Eitem goffaol ar gyfer dathliad o'ch dewis mewn unrhyw gyfrwng – dim mwy na 40cm x 40cm x 40cm.

Rhaid i aelodau gwblhau prawf ymarferol, yn unol â chyfarwyddiadau'r beirniad, i amlygu'r sgiliau a ddefnyddiwyd i greu'r eitem. Dylai aelodau ddod â deunyddiau yn barod ar gyfer y prawf ymarferol.

Dim ond un soced drydan a ddarperir ar gyfer y prawf ymarferol.

MESURIADAU

Hyd at 40cm (dyfnder) x 40cm (lled) x 40cm (uchder).

Lle i arddangos yr eitem orffenedig - hanner bwrdd trestl.

COSTAU

Dim mwy nag £20 o ran cyfanswm. Dylid arddangos y costau. Sylwer: dylai'r holl eitemau a ddefnyddir fod â gwerth.

AMSER

Caniateir 30 munud i wneud y prawf ymarferol a 30 munud i arddangos yr eitem.

CRAFT COMPETITION

MEMBERS' COMPETITION

All exhibits in the Members' Competition to be on display until 3pm on Thursday 26th July. Removal of exhibit before this time will result in the allocated marks being withdrawn.

TEAM

One member (26 years of age or under).

THEME

Commemorative item.

TASK

A commemorative item for a celebration of your choice in any medium – no more than 40cm x 40cm x 40cm.

Members must complete a practical test, as directed by the judge to showcase the skills used to create the item. Members should bring materials with them in readiness for the practical test.

Only one electric socket will be provided for the practical test.

MEASUREMENTS

Maximum size 40cm (deep) x 40cm (width) x 40cm (height).

Presentation space for finished item – half a trestle table.

COSTINGS

Not to exceed £20 in total. Costings to be displayed. Please note all items used must have a value.

TIME

30 minutes allowed for the practical test and 30 minutes to display the exhibit.



LLE GWEITHIO

Hanner bwrdd trestl.

WORK SPACE

Half a trestle table.

DYDDIAD PWYSIG

Cyfarfod staff cyn y sioe (dyddiad heb ei gadarnhau eto) – Dylid anfon yr eitem i Ganolfan CFFI Cymru erbyn y dyddiad hwn, yn barod i'w beirniadu cyn y sioe.

IMPORTANT DATE

Pre-show staff meeting (date to be confirmed) – Item to be submitted to the Wales YFC centre, ready for judging prior to the Show.

MARCIO

Gwreiddioldeb a dewis	15
Cynllun	15
Saernïaeth	30
Cyflwyniad a golwg yr eitem orffenedig	15
Prawf ymarferol	25

CYFANSWM 100

SCALE OF MARKS

Originality and choice	15
Design	15
Workmanship	30
Presentation and appearance of finished item	15
Practical test	25

TOTAL 100



CYSTADLEUAETH 3

CNEIFIO DEFAID

TÎM

Dau aelod (un 26 oed ac un 21 oed neu'n iau)

TASG

Aelodau i gneifio dau oen yr un.

SYLWER

Mae'n rhaid i gystadleuwyr ddarparu eu pen cneifio eu hunain.

Rhaid i bob cystadleuydd sy'n cystadlu yng nghystadleuaeth cneifio CFFI fod wedi pasio Prawf Medruswydd NPTC neu Wobr Glas y Bwrdd Gwlân, a gofynnir am gopi tystysgrif neu'r rhif dystiolaeth **cael eu anfon i Canolfan CFFI Cymru cyn y sioe.**

DYDDIAD PWYSIG

Cyfarfod staff cyn y sioe (dyddiad i'w gadarnhau) - rhaid i'r rhif BISCA gyrraedd Swyddfa CFFI Cymru erbyn y dyddiad hwn.

MARCIO

Bydd rheolau a threfn marcio 2018 BISCA yn weithredol.

COMPETITION 3

SHEEP SHEARING COMPETITION

TEAM

Two members (one 26 and one 21 years of age or under).

TASK

Members to shear two lambs each.

NOTES

Competitors must provide their own shearing heads.

All members must have passed either a NPTC Proficiency Test or a BWMB Blue Seal in Sheep Shearing to compete in the YFC Sheep Shearing Competition, a copy of the certificate or BISCA number **must be supplied to the Wales YFC Centre in advance of the show.**

IMPORTANT DATE

Pre-show Staff Meeting (date to be confirmed) - BISCA number to be submitted to the Wales YFC Centre.

SCORING SYSTEM

The BISCA Rules and marking system for 2018 will apply.



CYSTADLEUAETH 4

TRIN GWLÂN

TÎM

Un aelod (26 mlwydd oed neu iau)

TASG

Un aelod i drin dau gnu.

NODIADAU

Mae cystadleuwyr yn gyfrifol am ddarparu eu hysgub eu hunain.

MARCIO

Bydd rheolau a threfn marcio 2018 BISCA yn weithredol.

COMPETITION 4

WOOL HANDLING

TEAM

One member (26 years of age or under).

TASK

One member to handle two fleeces.

NOTES

Competitors are responsible for supplying their own broom.

SCORING SYSTEM

The BISCA Rules and marking system for 2018 will apply.



CYSTADLEUAETH 5

CANU

TÎM

Unawd - Un aelod (26 mlwydd oed neu'n iau).

Grŵp - Hyd at 6 o gantorion ond o leiaf 2 o gantorion (26 mlwydd oed neu'n iau).

TASG

Unawd - Cân a berfformiwyd gan grŵp neu artist o Gymru.

Grŵp - Unrhyw gân / caneuon o Sioe Gerdd neu Fflim.

CYFEILIANT

Gall aelodau ddarparu eu hofferynnau neu eu cyfeiliaint eu hunain (caniateir aelodau ychwanegol sy'n 26 mlwydd oed neu'n iau ac un unigolyn dros 26 mlwydd oed i gyfeilio). Ni chyfyngir ar nifer y darnau o gerddoriaeth a ddefnyddir.

Bydd CFFI Cymru yn darparu piano.

AMSER

Caniateir hyd at 5 munud ar gyfer pob adran.

Hyd at 15 eiliad dros yr amser a ganiateir – 2 farc cosb; hyd at 30 eiliad dros yr amser a ganiateir – 5 marc cosb; a thynnir 5 marc cosb am bob 15 eiliad ar ben hynny.

OFFER

Dylai aelodau ddarparu CD neu ffeiliau MP3 priodol a ddylai gynnwys lleisiau cefndir yn unig (bydd technegydd y CFFI yn gyfrifol am chwarae'r CD / ffeiliau MP3).

DYDDIAD PWYSIG

Cyfarfod staff cyn y sioe (dyddiad i'w gadarnhau) – rhaid i ffeiliau cerddoriaeth gyrraedd Canolfan CFFI Cymru erbyn y dyddiad hwn (dylid e-bostio ffeiliau MP3 at information@yfc-wales.org.uk)

COMPETITION 5

SINGING

TEAM

Solo - One member (26 years of age or under).

Group - Up to 6 singers but no less than 2 singers (26 years of age or under).

TASK

Solo section – A song performed by a Welsh group or artist.

Group – Any song / songs from a Stage or Film Musical.

ACCOMPANIMENT

Members may provide their own instruments or an accompaniment (additional members allowed (26 and under) and one individual over 26 years of age for accompaniment). There is no restriction on the number of music pieces used.

Wales YFC will supply a piano.

TIME

Maximum time allowed for each section is 5 minutes.

Up to 15 seconds overtime - 2 penalty marks; Up to 30 seconds overtime - 5 penalty marks; And a further 5 penalty marks will be deducted for every 15 seconds thereafter.

EQUIPMENT

Members to supply the appropriate CD \ Mp3 files which should include backing vocals only (CD \ Mp3's will be operated by the YFC technician).

IMPORTANT DATE

Pre-show staff meeting (date to be confirmed) – Submission of music file to Wales YFC Centre (mp3 files to be e-mailed to information@yfc-wales.org.uk)

**MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU
WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS**

RHEOLAU 2017-2018 RULES

SIOE FRENHINOL | ROYAL WELSH



MARCIO

Perfformiad a lleisio	70
Gwreiddioldeb	10
Effaith Gyffredinol	20

CYFANSWM 100

SCALE OF MARKS

Performance and vocal	70
Originality	10
Overall Effect	20

TOTAL 100

Cyflwynir tlysau i enillydd/enillwyr y ddwy adran.

Trophies will be awarded to the winner\ of both sections.



CYSTADLEUAETH 6

DAWNSIO

TÎM

Tîm o 4-8 aelod (26 mlwydd oed neu'n iau). Bydd rhaid i'r un pedwar aelod berfformio'r ddwy ddawns. Caniateir aelodau ychwanegol (hyd at 4) i berfformio yn y naill ddawns neu'r llall.

TASG

1. Perfformio dawns o'r 1920au.
2. Yna, dylai timau berfformio dawns gyferbyniol.

LLE

Darperir llwyfan 20' x 20'.

AMSER

Caniateir hyd at wyth munud ar gyfer pob tîm.

Mae angen i bob tîm berfformio am o leiaf pedwar munud.

COSBAU

Tynnir 2 farc cosb am bob 15 eiliad neu ran o hynny os bydd perfformiad y timau dros yr amser / dan yr amser.

OFFER

Bydd technegydd y CFFI yn gyfrifol am chwarae pob CD/ffeil MP3. Dylai cystadleuwyr ddarparu eu CDs ffeiliau a'u MP3 eu hunain, ond darperir offer PA.

DYDDIAD PWYSIG

Cyfarfod staff cyn y sioe (dyddiad i'w gadarnhau) – rhaid i ffeiliau cerddoriaeth gyrraedd Canolfan CFFI Cymru erbyn y dyddiad hwn (dylid e-bostio ffeiliau mp3 at information@yfc-wales.org.uk)

CYFEILIANT

Gall aelodau ddarparu eu hofferynnau neu eu cyfeiliant eu hunain (caniateir aelodau ychwanegol

COMPETITION 6

DANCING

TEAM

A team of between 4 and 8 members (26 years of age or under). The same four members must dance both dances. Additional members (up to 4) are allowed to perform in either dance.

TASK

1. Perform a dance from the 1920's.
2. Teams are then to perform a contrasting dance.

SPACE

A 20' x 20' stage will be provided.

TIME

Maximum time allowed for each team is eight minutes.

Minimum time allowed for each team is four minutes. 16

PENALTIES

Penalty marks at a rate of 2 marks per 15 seconds or part thereof will be incurred if teams go over time / under time.

EQUIPMENT

The YFC technician will be responsible for playing all CD's/mp3's. Competitors to provide their own CD's/mp3 but PA equipment will be provided.

IMPORTANT DATE

Pre-show staff meeting (date to be confirmed) – Submission of music file to Wales YFC Office (mp3 files to be e-mailed to information@yfc-wales.org.uk)

ACCOMPANIMENT

Members may provide their own instruments or an accompaniment (additional members allowed (26



sy'n 26 mlwydd oed neu'n iau ac un unigolyn dros 26 mlwydd oed i gyfeilio). Ni chyfyngir ar nifer y darnau o gerddoriaeth a ddefnyddir.

Bydd CFFI Cymru yn darparu piano.

MARCIO

Tasg 1	50
Tasg 2	50

CYFANSWM 100

and under) and one individual over 26 years of age for accompaniment). There is no restriction on the number of music pieces used.

Wales YFC will supply a piano.

SCALE OF MARKS

Task 1	50
Task 2	50

TOTAL 100



CYSTADLEUAETH 7

DYLUNIO A CHREU BARCUD

TÎM

Tri aelod; 2 aelod sy'n 26 mlwydd oed neu'n iau ac un aelod sy'n 18 mlwydd oed neu'n iau.

TASG

Bydd angen i aelodau'r tîm lunio a chreu barcud.

Gellir defnyddio unrhyw gyfrwng i greu'r barcud.

Bydd y Beirniad y gofyn cwestiynau i'r aelodau ynghylch y broses o greu eu Barcud. Rhaid i bob aelod fod yn bresennol i ateb y cwestiwn.

Bydd stiwardiaid y gystadleuaeth yn gwardeu unrhyw ddeunydd ychwanegol.

AMSER

Caniateir 5 munud am gwestiynau'r Beirniad. 30 munud i arddangos yr eitem.

MARCIO

Gwreiddioldeb	25
Cynllun	30
Cyflwyniad a golwg yr eitem orffenedig	25
Cwestiynau	20

CYFANSWM **100**

COMPETITION 7

DESIGN AND CREATE A KITE

TEAM

Three members; 2 members 26 years of age or under and one member 18 years of age and under.

TASK

Members of the team will be required to design and create a kite.

The kite can be produced from any medium.

Members will be asked questions from the Judge about the creation of their Kite. All members must be present to answer.

Any extra material will be removed by the competition stewards.

TIME

5 minutes will be allocated for the Judges questions. 30 minutes to display the exhibit.

SCALE OF MARKS

Originality	25
Design	30
Presentation & appearance of finished item	25
Questions	20

TOTAL **100**



CYSTADLEUAETH 8

RAS GYFNEWID BERFEYDD Â THEMA LLU AWYR
BRENHINOL

THEMA

Llu Awyr Brenhinol

TÎM

Tîm o 11 aelod (26 mlwydd oed neu'n iau). Gellir defnyddio hyd at 5 berfa.

Rhaid i dimau ddefnyddio deg aelod i gyfranogi yn y ras gyfnewid. Bydd angen i un aelod fydd yn 26 mlwydd oed neu'n iau ar 1 Medi roi sylwebaeth fyw (cyfanswm o 11 aelod).

TASG

Rhaid i'r timau ddarparu'r holl ferfeydd a dylent wisgo yn unol â'r thema (y Llu Awyr Brenhinol).

Bydd un aelod sy'n 26 mlwydd oed neu'n iau ar 1 Medi yn rhoi sylwebaeth fyw ac yn cyflwyno'r tîm; darperir meic radio llaw i wneud hyn.

Cynhelir ras gyfnewid ar ôl cyflwyno'r timau.

AMSERU

Caniateir hyd at 2 funud am y sylwebaeth fyw a chyflwyno'r tîm.

COSBAU

Tynnir 2 farc cosb am bob 15 eiliad neu ran o hynny os bydd perfformiad y timau dros yr amser.

MARCIO

Gwisgoedd/berfeydd addurnedig	30
Sylwebaeth	20
Ras Gyfnewid	50

CYFANSWM 100

COMPETITION 8

RAF WHEELBARROW RELAY

THEME

RAF

TEAM

Team of 11 members (26 years of age or under). A maximum of 5 wheelbarrows can be used.

Teams must use ten members to race in the relay. One member 26 years of age on 1st September to do a live commentary (in total 11 members).

TASK

All wheelbarrows to be supplied by the teams and dressed according to the theme (RAF).

One member 26 years of age or under on 1st September to do a live commentary, introducing their team, a hand held radio mic will be supplied.

A relay race will take place following on from the introduction of the teams.

TIMING

Maximum time allowed for live commentary, introducing the team is 2 minutes.

PENALTIES

Penalty marks at a rate of 2 marks per 15 seconds or part thereof will be incurred if teams go over time.

SCALE OF MARKS

Costumes/decorated wheelbarrows	30
Commentary	20
Relay Race	50

TOTAL 100



CYSTADLEUAETH 9

BARNU STOC GWARTHEG HOLSTEIN

TÎM

Pedwar aelod (un 26, un 21, un 18 ac un 16 oed neu'n iau).

TASG

Y cystadleuwyr 26 a 21 mlwydd oed neu'n iau i osod a rhoi rhesymau ar ddau gylch o bedwar o wartheg.

Y cystadleuydd 18 mlwydd oed neu'n iau i osod dau gylch o bedwar o wartheg a rhoi rhesymau ar un cylch (penderfynir pa gylch cyn y gystadleuaeth).

Y cystadleuydd 16 mlwydd oed neu'n iau i osod a rhoi rhesymau ar un cylch o bedwar o wartheg.

SYLWER

Dylid barnu pob adran yn unol â nodweddion y brîd.

Bydd yn ofynnol i'r cystadleuydd i farnu, osod a rhoi rhesymau POSITIF.

AMSER

15 munud i archwilio a thrin a thrafod y gwartheg.

RHESYMAU

Caniateir dau funud i bob cystadleuydd gyflwyno ei resymau. Cosbir cystadleuwyr sy'n mynd dros yr amser penodedig trwy dynnu dau farc am bob pymtheg eiliad neu ran o hynny. Tynnir y marciau hyn o gyfanswm y cystadleuydd.

Dim ond cardiau a ddarperir gan CFFI Cymru y caiff aelodau eu defnyddio i ysgrifennu nodiadau.

COMPETITION 9

HOLSTEIN CATTLE STOCK JUDGING

TEAM

Four members (one 26, one 21, one 18 and one 16 years of age or under).

TASK

The 26 and 21 years of age and under competitors to place and give reasons on two rings of four cattle.

The 18 years of age and under competitor to place two rings of four cattle and give reasons on one ring (the ring to be specified prior to the competition).

The 16 years of age and under competitor to place and give reasons on one ring of four cattle.

NOTE

All sections to be judged on breed points.

The competitor will be required to judge, place and give POSITIVE reasons.

TIMING

15 minutes allowed for inspection and handling.

REASONS

Each competitor will be allowed two minutes to state his/her reasons. Competitors who exceed this time limit will incur penalties at a rate of two marks for each 15 second or part thereof. The marks will be deducted from the competitor's total.

Members may only use cards supplied by Wales YFC to make notes.



CYSTADLEUAETH 10

CYSTADLEUAETH GWISGO FYNY

THEMA

Unrhyw fath o aderyn.

TÎM

Dau aelod (un yn 18 mlwydd oed neu'n iau ac un yn 16 mlwydd oed neu'n iau).

TASG

Bydd dau aelod yn gwisgo Arweinydd Clwb / Aelod Hŷn fel unrhyw fath o aderyn.

NODIADAU

Rhaid gwneud yr holl wisgoedd ar ddiwrnod y gystadleuaeth, felly ni ellir gwneud unrhyw waith ymlaen llaw (Cosbir timau os caiff gwisgoedd eu gwneud ymlaen llaw neu os cânt eu llogi). Atgoffir timau na chaniateir unrhyw ategolion megis wigiau sydd wedi'u gwneud / eu prynu ymlaen llaw.

AMSER

Caniateir 1 awr.

MARCIO

Gwreiddioldeb
Gwaith tîm
Effaith gyffredinol

25
25
50

CYFANSWM

100

COMPETITION 10

DRESSING UP COMPETITION

THEME

Any species of Bird.

TEAM

Two members (One 18 years and one 16 years of age or under).

TASK

Two members to dress up a Club Leader /Senior member as any species of bird.

NOTES

All costumes to be made on the day and therefore no work to be undertaken beforehand (Teams will be penalised if costumes have been made beforehand or if they have been hired). Teams are reminded that accessories such as wigs that have been made / purchased beforehand are therefore not permitted.

TIME

Time allowed – 1 hour.

SCALE OF MARKS

Originality	25
Team work	25
Overall effect	50

TOTAL

100



CYSTADLEUAETH 11

